Cyfarfod Pwyllgor Arbed Llanystumdwy
Neuadd y Pentref 4ydd Mawrth 2008 am 8 y.h.

Presennol:- Henry Roberts, Twm Morys, Sian Parry, Awen Hamilton, Gail Jones, Gwenda Roberts, Helen Rose, Mannon Griffiths, Aled Price, Gwyn Ellis, Sioned Thomas

Ymddiheuriadau:- Ellis Gwyn

Cytunwyd ar raglen i'n cyfarfod sef:-

1. **Ethol Swyddogion.**
2. **Adrodd yn ôl o ddydd Sadwrn - Cyfarfod Tynged yr Ysgolion.**
3. **Son am gyfarfod Nos Iau 6.3.08 gyda Mervyn Benford o'r 'Small Schools Organisation'**
4. **Sut i ddelio hefo Ffurflen Ymateb dogfen newydd Cyngor Gwynedd.**
5. **Cyfarfod a'r Aelod Lleol.**
6. **Unrhyw fater arall**.

1. **Ethol Swyddogion**

Cynigwyd a cytunwyd i'r canlynol:-

Cadeirydd - Henry Roberts
Trysorydd - Helen Rose
Ysgrifenyddion - Sian Parry/Aled Price
Ysgrifennydd cofnodion - Sioned Thomas
Trefnydd Adloniant - Twm Morys

Cytunodd gweddill y Pwyllgor i helpu mewn unrhyw ffordd.

2. **Adrodd yn ôl o'r cyfarfod dydd Sadwrn 1.3.08**

Roedd rhai o aelodau'r Pwyllgor wedi mynychu'r cyfarfod.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn a'r cyfarfod. Adroddwyd ei fod yn gyfarfod buddiol a bod oddeutu 300 yno ac fe gyflwynwyd gwybodaeth ffeithiol ac adeiladol gan y siaradwyr. (Mae adroddiad wedi ei baratoi ar y wê gan Sian Parri).

Awgrymwyd ei fod yn syniad i'r rhai oedd yno dynnu pwyntiau allan rhag ofn iddynt fod o werth i ni yn y dyfodol.

3. **Cyfarfod Nos Iau 6.3.08**

Eglurodd Gwyn Ellis fod cyfarfod wedi ei drefnu yng Nghanolfan Glaslyn, Porthmadog gan Benaethiaid ysgolion a effeithir arnynt yn y polisi i ailstrwythuro ysgolion Gwynedd. Roedd Dewi Jones (Pennaeth Ysgolion) wedi cynnig sylwad yn egluro nad oedd o wedi

cael gwybodaeth gan Benaethiaid yr ysgolion sy'n cael eu heffeithio yn y ddogfen am eu teimladau. Oherwydd hyn mae'r Penaethiaid wedi ymgynnull yn anffurfiol i drafod a trefnwyd cyfarfod ffurfiol i wrando a holi arbenigwr mewn ysgolion bychain. Mae Cadeirydd y Llywodraethwyr yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod gyda Mervyn Benford yn ogystal a phenaethiaid. Mae cyfarfod gyda'r prif swyddogion wedi ei drefnu at yr 20fed, yn Llanystumdwy, lle gall y Penaethiaid datgan eu barn a holi'r Cynghorwyr am atebion i'r agweddau o'r polisi arfaethedig sy'n datgan pryder iddynt.

4. **Sut i ddelio hefo Ffurflen Ymateb dogfen newydd Cyngor Gwynedd**

Mae Cyngor Gwynedd wedi dosbarthu holiaduron i'w cwblhau a'u dychwelyd erbyn 31.3.08. Dim ond dau gopi o'r ddogfen maent wedi yrru - cytunwyd i Aled Price ffonio i ofyn am fwy gan ei fod yn amhosib ymateb heb gael gweld y ddogfen. Trafodwyd sut i ddelio gyda'r holiadur ac fe gytunwyd i gyfarfod eto ymhen wythnos i drafod y mater ac i geisio cwblhau'r holiadur. **Cyfarfod Nos Fawrth nesa 11.3.08 am 7.30 y.h yn yr Ysgol.** Yn y cyfamser (ar ôl i bawb gael copi) pawb edrych ar y ddogfen a meddwl am atebion posib i'w trafod a'u cymharu yn y cyfarfod nesa.

Soniwyd for aelodau'r Cyngor Plwyf yn cyfarfod i edrych ar y holiadur fore Iau nesa 6.3.08.

5. **Cyfarfod a'r Aelod Lleol**

Adroddwyd y buasai o fudd i ni gael cyfarfod a Margaret Griffith er mwyn iddi gael cyfle i egluro ei sefyllfa ynglŷn a'r mater. Roedd Margaret Griffith yn fodlon cyfarfod ond yn anffodus roedd cyfarfod heno yn rhy fyr rybudd ganddi.

Cytunwyd i'w gwadd i'n cyfarfod nesa (11.3.08 am 7.30). Henry i adael iddi wybod. Awgrymwyd fod pawb yn meddwl am gwestiynau i'w rhoi iddi.

Eisiau pawb feddwl erbyn wythnos nesa os oes gwerth mewn cyfarfod ag unrhyw un/grŵp arall e.e. Cymdeithas yr Iaith, Ysgol Borth y Gest.

Mynegwyd mai canolbwyntio ar Llanystumdwy yn unig oedd ein nod ond fe awgrymwyd na fuasai'n bosib tynnu Ysgol Llanystumdwy yn unigol allan o'r ddogfen gan fod y ddogfen yn strwythur gynhwysfawr a bod gweithrediad agweddau ohoni megis Ysgolion Bro a Ffederal yn hollol ddibynnol ar gau ysgolion eraill i ryddhau arian a bod, felly, rhaid edrych ar newid y ddogfen gyflawn i gael newid bwriad cau Llanystumdwy. Anodd y buasai i Lanystumdwy aros fel ag y mae hi os ydi gweddill ysgolion tebyg y Sir yn Ffederaleiddio neu gau.

6. **Unrhyw fater arall**

Cynigiodd Helen Rose i greu pyramid ffôn ar gyfer cysylltu ar frys ac aelodau o'r

gymuned/rhieni/unrhyw un sydd a diddordeb mewn cymryd rhan yn yr ymgyrch.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag adeilad yr ysgol. Adroddwyd fod ysgol Borth y Gest yn bwriadu cyflogi pensaer annibynnol i wneud adroddiad ar eu hadeilad a cytunwyd y buasai o fydd i ninnau holi pe bae posib i ni wneud yr un peth ar y cyd a Borth y Gest gan rannu'r gost.

Cyfarfod nesa Nos Fawrth 11.3.08 am 7.30 y.h. yn yr Ysgol